

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrzasau teithiol, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc. Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at bob rhywogaeth. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae'n nodwedd allweddol o Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.<sup>1</sup>

Ar un adeg, mynd i'r syrzas fyddai'r unig gyfle oedd gan y rhan fwyaf o bobl, yn enwedig plant, i weld anifeiliaid gwyllt egsotig. Mae pethau wedi newid ers hynny. Mae syrzasau wedi cael eu disodli yn hynny o beth gan sŵau modern ac effeithiol sy'n rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i gynnal y safonau uchaf er lles eu hanifeiliaid. Mae sŵau sydd wedi'u trwyddedu o dan Deddf Trwyddedu Sŵau 1981<sup>2</sup> yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am yr anifail a ddangosir a'i gynefin.<sup>3 4</sup> Nid oes yr un gofyn ar syrzasau ac mae'n amheus a allai amgylchedd syrzas byth ateb y fath ofyn. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weld anifeiliaid gwyllt mewn sŵau, mae rhaglenni natur.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ffurfiol yn 2004 ac mae ein gwaith yn seiliedig ar gyflawni amcanion craidd yr UNCRC.<sup>5</sup>

Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Cymru) ar 1 Hydref 2018.<sup>6</sup> Nod y Bil hyw mynd i'r afael â phryderon moesegol drwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yng Nghymru. Ni ymgynghorwyd yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ond roedd gennym ddiddordeb arbennig yn eu barn. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oeddent yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cael effaith

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid <[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018_0.pdf)>

<sup>2</sup> Deddf Trwyddedu Swau 1981

<[https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga\\_19810037\\_en.pdf](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga_19810037_en.pdf)>

<sup>3</sup> Defra, Safonau Ymarfer Sw Modern yr Ysgrifennydd Gwladol

<[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf)>

<sup>4</sup> Nid oes angen trwydded ar rai swau, a hynny oherwydd nifer fach yr anifeiliaid a gedwir neu oherwydd y math o anifail a gedwir, ac nid oes gofyn iddyn nhw gadw felly at amodau Deddf Trwyddedu Swau 1981.

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Plant a phobl ifanc <[https://llyw.cymru/plant-theuluoedd?\\_ga=2.113323143.1067107442.1557992484-881363834.1547048528](https://llyw.cymru/plant-theuluoedd?_ga=2.113323143.1067107442.1557992484-881363834.1547048528)>

<sup>6</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Cymru) <<https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrzasau-teithio>>

gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. Gofynnwyd iddynt hefyd a oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 30 Ionawr 2019.<sup>7</sup> Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys yn ei gyfanrwydd isod.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi'ch barn y carech ei rhannu â ni?**

Roedd naw deg saith y cant o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Roedd y rhesymau yn amrywio. Roedd llawer o bobl yn teimlo y byddai gwaharddiad yn ennyn parch at anifeiliaid, fel bodau ymdeimladol.

Mae Catholic Action for Animals yn credu bod defnyddio anifeiliaid mewn syrcasau'n rhoi'r argraff i bobl ifanc bod anifeiliaid yn bod ar y ddaear er ein lles ni, waeth beth yw'r gost iddyn nhw. *"Banning them will make it clear that they exist for their own purposes, and will encourage respect for animals among children."*

Mae RSPCA Cymru yn credu nad yw dysgu anifeiliaid i wneud triciau amhriodol yn addysgu pobl nac yn ennyn parch at anifeiliaid:

*"The RSPCA believes that the appreciation of animals as sentient beings and the need to provide them with a healthy and happy life are essential in the promotion and development of empathy towards them. Ensuring animals have their physical, behavioural and psychological needs met and their welfare safeguarded at all times is essential to this; as is their portrayal as such to the public."*

*There is evidence that the way in which wild animals are portrayed has an impact on the attitude and actions of the public. Research<sup>8</sup> found that, compared to people shown videos of chimpanzees in a species-appropriate natural setting, people shown chimpanzees in an unnatural, human-like context ('entertainment chimpanzees') had a lower understanding of how endangered they are in the wild and were less likely to say they would contribute financially to the conservation of the species. People shown them in the natural setting were also more likely to say they were unsuitable as pets."*

Mae'r BVA a'r BVZS yn credu'r canlynol: *"the welfare of these animals is emblematic of the way we treat all animals under the care of humans and can negatively impact on the development of responsible and respectful attitudes towards animals. We are concerned that the continued use of wild animals in circuses has the potential to undermine the public's understanding of animals as sentient beings with complex welfare needs, instead*

---

<sup>7</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru), Crynodeb o'r Ymatebion <<https://lyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>>

<sup>8</sup> Schroepfer, K. K., Rosati, A. G., Chartrand, T. & Hare, B. Use of "Entertainment" Chimpanzees in Commercials Distorts Public Perception Regarding Their Conservation status. *PLoS One* 6, 8 (2011). <<https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0026048>>

*framing animals as commodities that can be used to perform unnatural behaviours for human entertainment and promoting sub-optimal welfare practices that may be extrapolated and influence the way humans treat all animals.”*

Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan fwyafrif y rheini oedd yn credu y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Rhoddir rhai enghreifftiau isod:

- *“Children learn from what they see, circuses using animals send a message that animals are for human entertainment, playthings and a means to earn money. This is not a message that we should be sending out to the children of Wales. They need to see animals as sentient beings.”* (Jayne Dendle)
- *“If children see animals used as a commodity to make money regardless of their welfare children can’t be expected to understand their responsibility to care for animals.”* (Mrs Ann Goodwin)
- *“We need to set a good example that animals are not simply for our entertainment but are beings that should be respected.”* (mae'r ymatebydd am aros yn ddiennw)
- *“As a teacher I have seen the negative impact it has on children’s perception of animals and how it can lead to animal cruelty.”* (mae'r ymatebydd am aros yn ddiennw)
- *“I work in conservation education. Children learn nothing about wild animals from seeing them in circuses. On the contrary it desensitises them to their real and actual needs. I also have my own children and see how much they learn about science and ecosystems from seeing animals in the wild and natural, not artificial habitats.”* (Kate Chabriere)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am dystiolaeth i gefnogi eu barn. Yn eu hymateb, cyfeiriodd Animal Defenders International at ymchwil (gan gynnwys gwaith Schroepfer et al am dsimpansiad) i gefnogi'u barn y câi gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau teithiol effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc yn arbennig, ond hefyd pobl o bob oed, at anifeiliaid:

*“Animal circus acts do not teach respect for animals or appreciation of the species with whom we share our planet; in fact, they teach the opposite. With audiences shown a caricature, often presented to make the trainer look strong and brave, animals are forced to perform increasingly bizarre acts that are neither natural movements for them nor educational for those watching.*

*Detached from their natural environment, research has shown that the display of animals has a negative impact on the development of respectful and responsible attitudes towards animals for children and young people, the “marginal” potential*

*educational benefit “likely to be outweighed by the negative impression generated by using wild animals for entertainment”.*<sup>9</sup>

*Expressing concern about the negative effect on children who view them, a group of psychologists in Italy has stated that animal acts fail to encourage learning about the animals, instead creating a lack of respect and empathy.*<sup>10</sup>

*Studies on the attitudes of young people in Scotland toward wild animals in travelling circuses found that 81% of those surveyed agreed with a ban, with 57% agreeing that seeing wild animals in this way would make young people respect them less.*<sup>11</sup>

*Research shows that presenting animals as objects of fun and within a human environment, such as in a travelling circus, can negatively distort people’s perception of their conservation status and harm efforts to protect their counterparts in the wild. For example “those viewing photographs of a chimpanzee standing next to a human” in one study “were 35.5% less likely to categorize chimpanzee populations as endangered/declining compared to those viewing photographs with the chimpanzee standing alone”, the species’ use in entertainment hindering “chimpanzee conservation efforts.”. In another study “Viewing the primate in an anthropomorphic setting while in contact with a person.....increased likelihood of believing the animal was not endangered.”<sup>12</sup>*

Dywedodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys mudiadau, eu bod yn credu bod dangos anifeiliaid gwyllt mewn syrcas yn caledu plant yn erbyn ymatebion naturiol anifeiliaid a'u dulliau cyfathrebu dieiriau, neu'n eu cymell i'w gweld yn wrthrychau. Yn ôl People for the Ethical Treatment of Animals (Peta), *“experts in early childhood development have cautioned against taking children to circuses that force animals to perform after finding that such acts inhibit a child's ability to develop empathy towards both humans and animals alike by teaching them that other living beings are merely objects to be manipulated for their own enjoyment.”*

Roedd canran fach yn anghytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Eu prif reswm oedd bod syrcasau teithiol yn rhoi cyfle i blant na fyddent yn gallu ei gael fel arall i weld a dysgu am anifeiliaid gwyllt.

Roedd Warren Thomas Kelly o'r farn bod gweld anifeiliaid mewn cysylltiad agos â hyfforddwyr yn addysgu plant am gadw a hyfforddi anifeiliaid. *“Animal training is an art*

---

<sup>9</sup> Dorning, J., Harris, S., & Pickett, H. (2016). The welfare of wild animals in travelling circuses. <<https://beta.gov.wales/welfare-wild-animals-travelling-circuses>>

<sup>10</sup> Manzoni, A. (2016). Documento di psicologi sulle valenze antipedagogiche dell'uso degli animali nei circhi,nelle sagre,negli zoo.

<sup>11</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir yn ymateb i Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor am Fil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (yr Alban), 5 Hydref 2017. <[http://www.parliament.scot/S5\\_Environment/Inquiries/Circus\\_Bill\\_-\\_Stage\\_1\\_-\\_Stage\\_1\\_Report\\_SG\\_Response\\_-\\_RC\\_to\\_ECCLR\\_ctte.pdf](http://www.parliament.scot/S5_Environment/Inquiries/Circus_Bill_-_Stage_1_-_Stage_1_Report_SG_Response_-_RC_to_ECCLR_ctte.pdf)>

<sup>12</sup> Leighty, K.A., Valuska, A.J., Grand, A.P., Bettinger, T.L., Mellen, J.D., Ross, S.R., Boyle, P. and Ogden, J.J. (2015). Impact of visual context on public perceptions of non-human primate performers. PloSone,10(2),e0118487. <<https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4340917/>>

*form celebrated and patronised by Royalty and enjoyed by many other children in European countries. If you instead conversed with the schools and held open mornings at the said circuses to watch the training of the wild animals you will see commitment passion and art. Wild animals in circuses well run and operated provide children with innocent nostalgia and important culture."*

Yn ôl Urdd Syrcasau Prydain Fawr, maent yn cael adborth positif iawn gan rieni ynghylch yr hyn y mae eu plant wedi dysgu ac am ei brofi eto.

Dyma enghreifftiau o safbwyntiau tebyg a fynegwyd gan ymatebwyr:

- *"Seeing the way animals are trained in the circus can have a very positive and educational value to children. Some circuses have open days where people can come along and watch the animals being trained. These serve to provide an insight to animal behaviour and psychology, and help children to understand the importance of correct care and treatment of animals."* (mae'r ymatebydd am aros yn ddiennw)
- *"As a mother of two, with several years' experience helping care for the animals of a private training facility while a young teen, I can honestly say there is more to gain with than without. Children have an opportunity to be educated, empathetic, experience the awe of both the animals and the relationships possible and this will reflect on their need to conserve these in the real world (truly wild). Without this, they will fail to have that experience."* (Victoria Simpson)

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai ymdrechion i warchod anifeiliaid gwyllt yn dioddef pa na fyddai'r plant yn cael cyfle i'w gweld mewn syrcasau teithiol. Mae Rebecca Bullock yn credu bod plant ac oedolion yn dysgu caru'r hyn y maen nhw'n gallu ei weld a chyffwrdd ynddo. *"Giving them the opportunity to see these animals up close is the driving factor behind their desire to save their wild counterparts. How are we supposed to get people to want to protect actual wild animals if no one cares about them?"*

Yn ôl Dr Ted Friend, the *"first contact many world famous conservation biologists and veterinarians had with exotic animals was with circus animals. Children fall in love with the animals at circuses and the old saying that "you do not conserve what you do not know" is very true. Performances allow children to focus on the animal, what the animal is capable of doing, and draws their attention, much more so than animals on display in most zoos."*

Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud hi'n drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol. Bydd gwaharddiad yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod yr arfer yn un o'r oes o'r blaen ac yn foesebol annerbyniol.

## **Arolwg Plant yng Nghymru**

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd Plant yng Nghymru<sup>13</sup>, y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, arolwg ategol ar ei wefan. Roedd yr arolwg, a barodd am dair wythnos yn Chwefror 2019, yn gofyn y ddau gwestiwn canlynol, sy'n cyd-fynd yn fras â dau gwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus.

*C1. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddf a fyddai'n ei gwneud hi'n drosedd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol?*

*C2. Ydych chi'n credu y bydd gwahardd syrzasau rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael effaith dda ar agweddau pobl ifanc tuag at anifeiliaid? Dywedwch pam.*

Rhodddwyd dolen i ddogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus a Bil drafft er gwybodaeth.

Cwblhaodd pum deg pump o bobl yr arolwg ac mae 98% (54 allan o 55 ymatebydd) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddf fel y byddai'n drosedd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Mae'r mwyafrif llethol yn credu y byddai gwahardd syrzasau rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael effaith dda ar agweddau pobl ifanc tuag at anifeiliaid hefyd.

Mae sylwadau'r rheini a gwblhaodd yr arolwg yn adleisio'r rheini a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad:

- *"In this day and age, people do not need to see animals exploited in circuses. Non animal circuses are just as entertaining." (dim enw)*
- *"Absolutely abusive to cage and move animals for entertainment. Wild means exactly that. Animals have feelings, this has been proved over and over. Circuses with wild animals are disgusting." (dim enw)*
- *"Yes (to a good impact on children) because they are then not normalising the abuse and captivity of animals for entertainment purposes." (dim enw)*
- *"Parch at anifeiliaid o oedran ifanc yn helpu ac o hyn daw parch at bobl/yr amgylchedd yn gyffredinol." (dim enw)*

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd ymarfer sgrinio i asesu effeithiau tebygol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, yn cynnwys plant a phobl ifanc. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc. Roedd unrhyw dystiolaeth berthnasol a welwyd, yn cynnwys y canlynol gan Eurogroup for Animals, yn awgrymu'r gwrthwyneb: *"Besides animal welfare arguments, there is increasing concern that public entertainment with the use of wild animals does not have any educational value and, on the contrary, may have a negative impact on the public's perception (especially children) of wild animals."*<sup>14</sup>

---

<sup>13</sup> Plant yng Nghymru <<http://www.childreninwales.org.uk/>>

<sup>14</sup> Eurogroup for Animals, Wild Animals in EU Circuses, Problems, Risk and Solutions (2015) <[http://www.eurogroupforanimals.org/wp-content/uploads/E4A-Circus\\_Report-Digital-OK-v2.pdf](http://www.eurogroupforanimals.org/wp-content/uploads/E4A-Circus_Report-Digital-OK-v2.pdf)>

## 2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae effaith debygol y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) arfaethedig ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei hystyried.

Erthyglau'r Confensiwn sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig yw Erthyglau 5, 12, 17 a 31. Amlinellir manylion y rhain, yn cynnwys unrhyw effaith bosibl, isod:

**Erthygl 5:** *“Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.”*

Mae naw deg saith y cant o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid

Ar un adeg, mynd i'r syrcas fyddai'r unig gyfle y byddai'r rhan fwyaf o bobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, yn ei gael i weld anifeiliaid gwyllt egsotig. Mae pethau wedi newid ers hynny. Mae syrcasau wedi cael eu disodli yn hynny o beth gan sŵau modern ac effeithiol sy'n rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i gynnal y safonau uchaf er lles eu hanifeiliaid. Mae sŵau yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am yr anifail a ddangosir a'i gynefin. Nid oes yr un gofyn ar syrcasau ac mae'n amheus a allai amgylchedd syrcas byth ateb y fath ofyn. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weld anifeiliaid gwyllt mewn sŵau, mae rhaglenni natur o'r radd flaenaf yn ennyn parch cynyddol at werth cynhenid anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin naturiol.

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn codi pryderon ynghylch urddas anifeiliaid. Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a disgwyl iddynt berfformio triciau

Mae ymatebwyr yn credu y bydd gwaharddiad yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith eu plant, tuag at bob rhywogaeth.

**Erthygl 12:** *“Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried”*

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) ar 1 Hydref 2018. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n eang ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Ni ymgynghorwyd yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ond roedd gennym ddiddordeb arbennig yn eu barn nhw a barn y sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oeddent yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. Gofynnwyd iddynt hefyd a oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu barn. Cafwyd 6,546 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae naw deg saith y cant o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid.



Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd Plant yng Nghymru, y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, arolwg ategol ar ei wefan. Roedd yr arolwg yn para tair wythnos ym mis Chwefror 2019 ac roedd yn cynnwys doler i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Cwblhaodd pum deg pump o bobl yr arolwg gyda 98% yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddf i'w gwneud hi'n drosedd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Mae'r mwyafrif llethol hefyd o'r farn y bydd gwahardd syrzasau rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael effaith dda ar agweddau pobl ifanc tuag at anifeiliaid.

Ni ofynnwyd am oedrannau ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r rheini a oedd yn cwblhau arolwg Plant yng Nghymru felly ni wyddom faint o'r rheini a ymatebodd i'r ddau a oedd yn iau na deunaw oed.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ac fel rhan o ymgysylltu ehangach ar y mater hwn, aethom ati i gysylltu â nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc am eu barn ar unrhyw effaith bosibl. Ni ymatebodd yr un o'r sefydliadau i ni gysylltu â nhw.

**Erthygl 17:** *“Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.”*

Mae llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn bod yr amgylchedd y mae anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cael ei gadw ynddo, a'r perfformiad sy'n rhaid iddynt ei roi, yn annaturiol yn y bôn. Mae ymatebwyr o'r farn nad yw'n ffordd gywir na dibynadwy o ddangos anifeiliaid gwyllt a'u hymddygiad i blant a phobl ifanc.

Gallai gweld anifeiliaid gwyllt yn cael eu defnyddio mewn syrzasau teithiol ei gwneud hi'n anodd i blant ddeall nad yw ymddygiad o'r fath yn cynrychioli ymddygiad “arferol” y rhywogaethau hynny yn eu cynefin naturiol. Gallai hyd yn oed fod risg i iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc o ganlyniad i wybodaeth anghywir am gysylltiadau dynol ag anifeiliaid gwyllt mwy peryglus.

**Erthygl 31:** *“Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.”*

Mae syrzasau teithiol wedi teithio o amgylch y Deyrnas Unedig ers dau gan mlynedd a mwy a bydd dal i fod croeso iddynt yng Nghymru, cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid domestig sy'n cael eu cadw gan syrzasau teithiol nac ychwaith anifeiliaid mewn unrhyw fath arall o adloniant. Bydd plant yn gallu mynd i'r syrzas o hyd.

Nid yw mwyafrif y syrzasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt ac nid oes fawr o wahaniaeth rhwng tocynnau prisiau syrzasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a'r rhai sydd ddim. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrzasau Prydain Fawr, mae mwy na thri



deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.<sup>15</sup> Yn 2018, roedd prisiau tocynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y ddau syrcas sy'n parhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn debyg i docynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol 15 o'r 30 sydd ddim yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

Bydd cyfle o hyd i blant weld a chael profiad o anifeiliaid gwyllt a dysgu amdanynt yn un o'r sŵau lawer sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981. Mae sŵau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am y rhywogaethau a ddangosir a'u cynefin naturiol.

---

<sup>15</sup> Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <<http://www.circusgb.com/index.html>>